**Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes - Adroddiad ar yr Ymchwiliad i Ddyfodol Masnachfraint Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau - Ionawr 2014**

---

Mae masnachfraint Cymru a'r Gororau yn darparu cysylltiad hanfodol i'r bobl sy'n defnyddio ei gwasanaethau. Gallai hefyd wella'r cyfleoedd o ran cyflogaeth a'r cyfleoedd cymdeithasol i nifer o bobl. Rwyf yn croesawu'r ffaith bod y Pwyllgor yn cydnabod pwysigrwydd y fasnachfraint. Rwyf yn cytuno'n llwyr â barn y Pwyllgor bod angen canolbwyntio ar sicrhau'r canlyniadau gorau posibl yn y dyfodol i deithwyr ac i drethdalwyr.

Fel y mae'r Pwyllgor yn ei gydnabod, rydym yn awr mewn cyfnod pwysig ar gyfer datblygu ein gwasanaethau cludo teithwyr ar y rheilffyrdd. P'un ai'r Adran Drafnidiaeth neu Lywodraeth Cymru yw'r awdurdod a fydd yn dyfarnu'r fasnachfraint, rwyf am sicrhau ein bod yn defnyddio'r cyfle hwn i gyflawni gwelliannau sylweddol i ddefnyddwyr a darpar ddefnyddwyr y rheilffyrdd, a hynny yn yr holl ardaloedd sy'n cael eu gwasanaethu gan y fasnachfraint.

Mae yna wersi pwysig i'w dysgu o'r fasnachfraint bresennol nad yw wedi dal ei thir. Mae pwysigrwydd ymgorffori darpariaeth ar gyfer twf a chymell buddsoddi yn ôl yn y gwasanaethau a gyngir yn amlwg. Rwyf yn cytuno â'r Pwyllgor mai Llywodraeth Cymru sydd yn y sefyllfa orau i bennu a dyfarnu'r fasnachfraint nesaf, ond dim ond os yw'r adnoddau priodol ar gael. Byddaf yn parhau i bwyso am drosglwyddo'r swyddogaethau perthnasol, yn amodol ar setliad ariannol teg.

Wrth i ni symud ymlaen, byddwn yn croesawu ymgysylltiad parhaus y Pwyllgor yn y maes cymhleth hwn. Mae'n bwysig ein bod i gyd yn deall y dewisiadau sydd ar gael a'u goblygiadau.

Mae fy ymateb manwl i bob un o'r argymhellion isod. Mae fy ymatebion yn dangos yn glir os yw'r ffaith fy mod yn derbyn argymhelliad yn amodol ar drosglwyddo swyddogaethau sy'n ymwneud â masnachfreinio rheilffyrdd i Weinidogion Cymru. Os na chaiff y swyddogaethau eu trosglwyddo, bydd yr argymhellion perthnasol yn sail i'r agwedd y byddwn yn ei harddel wrth gyfleu safbwyntiau Llywodraeth Cymru i'r Adran Drafnidiaeth.

**Nodir isod yr ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad:**

**Argymhelliad 1**
Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i lobïo Llywodraeth y DU am i'r grymoedd angenrheidiol a'r arian gofynnol gael eu datganoli fel mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y fanyleb ar gyfer Masnachfraint nesaf Cymru a'r Gororau ac am ei chaffael.

**Ymateb: Derbyn.** Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu argymhelliad y Pwyllgor ac yn cytuno y dylid trosglwyddo swyddogaethau masnachfreinio rheilffyrdd i Weinidogion Cymru, yn amodol ar setliad teg. Mae trafodaethau

wedi dechrau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch rôl Gweinidogion Cymru yng nghyswllt masnachfreinio rheilffyrdd.

**Goblygiadau Ariannol** - Bydd y cyllid sy'n gysylltiedig â masnachfraint nesaf Cymru a'r Gororau yn amodol ar drafodaeth bellach rhwng Llywodraeth Cymru a'r Adran Drafnidiaeth.

**Argymhelliad 2:** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod ganddi adnoddau refeniw a chyfalaf digonol i gyflenwi masnachfraint effeithiol.

**Ymateb: Derbyn.** Nid Llywodraeth Cymru yw'r awdurdod masnachfreinio ar gyfer masnachfraint Cymru a'r Gororau ar hyn o bryd. Bydd unrhyw benderfyniadau am gyllid sy'n ymwneud â'r fasnachfraint yn y dyfodol yn amodol ar drafodaeth bellach rhwng Llywodraeth Cymru a'r Adran Drafnidiaeth.

Nod Llywodraeth Cymru yw sicrhau y bydd y fasnachfraint yn y dyfodol a'r setliad cyllido cysylltiedig yn rhoi model masnachfraint effeithiol sy'n diwallu disgwyliadau teithwyr.

**Goblygiadau Ariannol:** Bydd y cyllid sy'n gysylltiedig â masnachfraint nesaf Cymru a'r Gororau yn amodol ar drafodaeth bellach rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Mae angen i'r setliad terfynol fod yn fwy na lefel y cyllid sydd eisoes yn cael ei drosglwyddo i Lywodraeth Cymru gan nad yw hyn yn ddigon i ddarparu'r capasiti sydd ei angen yn awr ac mae'n debyg y bydd y galw yn cynyddu eto.

**Argymhelliad 3:** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod ganddi'r staff iawn, gyda'r profiad a'r sgiliau arbenigol angenrheidiol, i ddatblygu a chyflenwi'r fasnachfraint newydd a'r trenau a'r cerbydau angenrheidiol.

**Ymateb: Derbyn.** Mae Llywodraeth Cymru wedi cael profiad gwerthfawr drwy reoli'r fasnachfraint Cymru a'r Gororau bresennol ac mae eisoes wedi buddsoddi i ymestyn capasiti yn ein tîm rheilffyrdd. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y byddai ysgwyddo cyfrifoldeb yr awdurdod masnachfreinio yn golygu y byddai angen i ni gryfhau ein sylfaen sgiliau masnachol, technegol, cyfreithiol a chaffael ymhellach. Cynhaliwyd ymweliad astudio manwl â Transport Scotland yn gynharach y llynedd er mwyn cyfrannu at ein dull gweithredu.

**Goblygiadau Ariannol:** Mae profiad Transport Scotland yn dangos y gallai'r costau sydd ynghlwm wrth gaffael masnachfraint fod cymaint â £4m dros dair blynedd. Dylid ystyried y gost hon a'r costau ychwanegol parhaus sydd ynghlwm wrth reoli masnachfraint mewn unrhyw setliad cyllido y cytunir arno gyda'r Adran Drafnidiaeth.

**Argymhelliad 4:** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn seilio'r gwaith o ddatblygu llwybrau, lefelau gwasanaeth a gofynion seilwaith y

dyfodol ar ddealltwriaeth fanwl o’r ffactorau economaidd gymdeithasol sy’n dylanwadu ar y llifoedd traffig rheilffordd yn ardal Masnachfraint Cymru a’r Gororau a’r senarios o ran y farchnad bosibl a’r galw yn y dyfodol, gan gynnwys llifoedd trawsffiniol.

**Ymateb: Derbyn.** Nid Llywodraeth Cymru yw’r awdurdod masnachfreinio ar gyfer masnachfraint Cymru a’r Gororau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rydym yn cytuno ei bod yn bwysig bod unrhyw benderfyniadau am wella gwasanaethau yn seiliedig ar y wybodaeth orau sydd ar gael am lefelau’r galw yn y dyfodol a’r manteision economaidd-gymdeithasol tebygol.

**Goblygiadau Ariannol:** Wrth lunio manyleb masnachfraint newydd bydd gwaith yn cael ei wneud er mwyn deall lefelau’r galw a llifoedd traffig yn y dyfodol yn well. Bydd y gost yn cael ei hystyried mewn unrhyw setliad cyllido y cytunir arno gyda Llywodraeth y DU.

**Argymhelliad 5:** Gwarchod a gwella’r llwybrau trawsffiniol o fewn map y fasnachfraint gyfredol a sicrhau bod anghenion y rhannau o ardal y fasnachfraint sydd yn Lloegr yn cael eu hadlewyrchu wrth ddatblygu a chyflenwi'r fasnachfraint nesaf.

**Ymateb: Derbyn.** Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno mai map masnachfraint gyfredol Cymru a’r Gororau yw’r man cychwyn gorau ar gyfer y fasnachfraint nesaf. Byddai unrhyw newidiadau a gynigir i’r map masnachfraint cyn dyfarnu’r fasnachfraint newydd yn amodol ar ymgynghoriad gan yr Adran Drafnidiaeth gyda Llywodraeth Cymru.

**Goblygiadau Ariannol:** Os bydd yr Adran Drafnidiaeth yn cynnig unrhyw newidiadau i fap masnachfraint Cymru a’r Gororau, efallai y bydd angen newid y setliad ariannol.

**Argymhelliad 6:** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn penderfynu’n fuan ynglŷn â’r model rheoli sydd i gael ei fabwysiadu, gan ddangos sut y bydd y model a ddewisir yn gwella bodlonrwydd cwsmeriaid ac ansawdd y gwasanaeth yn ogystal â gwerth am arian. Rhaid i’r dull o reoli a lliniaru risg fod yn glir hefyd.

**Ymateb: Derbyn.** Nid Llywodraeth Cymru yw’r awdurdod masnachfreinio ar gyfer masnachfraint Cymru a’r Gororau ar hyn o bryd. Cytunir bod angen diffinio model masnachfraint a ffefrir ymhell cyn dechrau cymryd camau caffael ar gyfer masnachfraint newydd. Ein nod yw mai’r model a fydd yn cael ei ddatblygu fydd y gorau i ddiwallu anghenion teithwyr ar yr un pryd â chynnig gwerth da am arian cyhoeddus.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim goblygiadau newydd

**Argymhelliad 7:** Mae’r Pwyllgor yn argymell datblygu a chyhoeddi strategaeth cerbydau fel mater o frys, nid dim ond i sicrhau bod penderfyniadau pwysig ynglŷn â chydweddiad cerbydau ar gyfer trydaneiddio a deddfwriaeth hygyrchedd yn cael eu cymryd mewn da bryd i osgoi’r costau

uwch a’r tarfu sy’n deillio o oedi, ond hefyd i gynyddu capasiti ac ansawdd trenau ar gyfer y tymor hir.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor.** Nid Llywodraeth Cymru yw’r awdurdod masnachfreinio ar gyfer masnachfraint Cymru a’r Gororau ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y bydd hi’n bwysig bod y disgwyliadau ynghylch y cerbydau’n cael eu diffinio’n glir ar gyfer y fasnachfraint nesaf.

**Goblygiadau Ariannol:** Mae’r materion cyllido sy’n ymwneud â phob dewis ynghylch cerbydau ar gyfer eu defnyddio ar Gledrau’r Cymoedd ar ôl trydaneiddio’n cael eu hystyried ar hyn o bryd. Byddai’n rhaid i’r gwaith sy’n cael ei wneud i bennu’r fasnachfraint ystyried y materion ariannol sy'n ymwneud â gofynion cerbydau a bennir ar gyfer y fasnachfraint nesaf.

**Argymhelliad 8:** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Adran Drafnidiaeth y DU i sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu hadlewyrchu wrth gaffael masnachfreintiau newydd yn ehangach, yn arbennig Masnachfreintiau Great Western a West Coast.

**Ymateb: Derbyn.** O dan ddeddfwriaeth bresennol, rhaid i’r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwahodd ceisiadau am fasnachfreintiau rheilffyrdd sy’n darparu Gwasanaethau yng Nghymru - hynny yw gwasanaethau sy’n dechrau, yn gorffen neu’n stopio o leiaf unwaith yng Nghymru. Mae’n bwysig bod masnachfreintiau’n cael eu dylunio i ddiwallu disgwyliadau’r cyhoedd sy’n teithio, i sicrhau gwerth am arian ac i gefnogi ein dyheadau ar gyfer datblygu economaidd. Rydym wedi ymrwymo i gyfleu ein dyheadau’n glir ar gyfer masnachfreintiau eraill i’r Adran Drafnidiaeth.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim goblygiadau ariannol newydd.

**Argymhelliad 9:** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn lansio ymgynghoriad cyhoeddus mawr gyda’r holl randdeiliaid yn ardal y fasnachfraint yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys teithwyr, grwpiau defnyddwyr, cymunedau lleol, busnesau a llywodraeth leol.

**Ymateb: Derbyn.** Nid Llywodraeth Cymru yw’r awdurdod masnachfreinio ar gyfer masnachfraint Cymru a’r Gororau ar hyn o bryd. Bydd yr awdurdod masnachfreinio perthnasol yn cynnal ymgynghoriad cyn llunio fersiwn terfynol manyleb masnachfraint.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim goblygiadau ariannol newydd.

**Argymhelliad 10:** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y fasnachfraint yn ymdrin yn glir â’r materion eraill canlynol:

a. Rhoi anghenion teithwyr wrth galon y fasnachfraint nesaf.

b. Yr angen am fuddsoddiad sylweddol gan y gweithredwr. Efallai mai drwy fasnachfraint hwy y gellir hwyluso hyn orau, ond dim ond gyda

monitro perfformiad a gwerthuso effeithiol a chymalau terfynu priodol i fynd i'r afael â thanberfformio.

c. Gwell cyfundrefn rheoli perfformiad a monitro gyda chymhellion a chosbau effeithiol. Efallai y bydd SQUIRE (Scottish Service Quality Incentive Regime) yn fodel defnyddiol er monitro ansawdd y gwasanaeth ond dylai gael ei werthuso'n ofalus yn gyntaf.

d. Y targedau a'r canlyniadau sy'n ofynnol o'r fasnachfraint nesaf. Dylai'r rhain ymdrin â'r angen i gynyddu nifer y teithwyr, gwneud trenau yn fwy dibynadwy a phrydlon a lleihau costau, ond dylent hefyd gynnwys diogelwch ac amcanion meddalach fel cysur, pa gyfleusterau a ddarperir, glendid a bodlonrwydd cwsmeriaid.

e. Yr angen am ddangosyddion perfformiad amgylcheddol effeithiol.

f. Gofyniad ar i'r gweithredwr ddarparu adroddiadau rheolaidd ar ddata perfformiad fesul llwybr/gwasanaeth unigol, a'u cyhoeddi.

g. Gwneud manylion ariannol y fasnachfraint yn fwy tryloyw drwy ei gwneud yn ofynnol i weithredwr y fasnachfraint gyhoeddi'i ddata buddsoddi ac elw yn ogystal ag unrhyw gymhorthdal a geir gan y Llywodraeth.

h. Yr angen am safonau uchel i orsafoedd a gofyniad i wella cyfleusterau gorsafoedd.

i. Symleiddio'r trefniadau tocynnau a pholisi prisiau sy'n rheoli'r cynnydd ym mhrisiau tocynnau ac yn rhoi gwerth am arian.

j. Llawer mwy o rôl i reilffyrdd cymunedol, gyda chymorth ychwanegol oddi wrth weithredwr y fasnachfraint a Llywodraeth Cymru.

k. Integreiddio gyda dulliau trafnidiaeth eraill, yn cynnwys Metro de-ddwyrain Cymru a'r rhwydwaith bysiau.

l. Ffyrdd newydd ac arloesol o annog mwy o bobl i integreiddio teithio ar y trên gyda cherdded a beicio.

m. Brandio effeithiol i hyrwyddo delwedd gadarnhaol o drafnidiaeth rheilffordd yng Nghymru.

n. Perthynas waith agos rhwng gweithredwr y fasnachfraint a Network Rail i leihau costau a gwella'r gwasanaeth i gwsmeriaid. Rhaid rhoi sylw priodol i anghenion yr ardaloedd hynny o'r fasnachfraint sydd y tu allan i lwybrau Cymru Network Rail.

**Ymateb: Derbyn.** Nid Llywodraeth Cymru yw'r awdurdod masnachfreinio ar gyfer masnachfraint Cymru a'r Gororau ar hyn o bryd. Mae'n dal yn uchelgais gan Lywodraeth Cymru y dylai'r cytundeb ar gyfer masnachfraint nesaf Cymru

a’r Gororau ganolbwyntio ar sicrhau bodlonrwydd cwsmeriaid, gwerth am arian a’n dyheadau ehangach ar gyfer yr economi.

**Goblygiadau Ariannol:** Ymhellach i’r costau sy’n ymwneud â'r gwaith o bennu, caffael a rheoli masnachfraint, mae’n debyg y byddai goblygiadau ariannol ychwanegol ynghlwm wrth weithredu trefn debyg i SQUIRE.

Edwina Hart MBE CStJ AC